

Tasg 2

Roswell

Mae'r sleidiau'n dangos Roswell, Mecsico Newydd, Gogledd America.

Mae rhai pobl yn dweud, "Glaniodd UFO yma yn 1947".

Mae rhai pobl yn dweud, "Balw'n tywydd oedd e – nid UFO".

Ond hyd heddiw, mae rhai pobl yn dweud bod UFO yn ardal Roswell yn 1947.

Mae amgueddfa UFOs ac aliwns yno heddiw. Mae llawer o bobl yn dod i'r ardal i weld "ble roedd yr UFO".



Mae rhai pobl yng Nghymru'n dweud, "Dw i wedi gweld UFO" hefyd.

Dw i wedi gweld UFO yn teithio'n araf yn yr awyr. Roedd hi'n goch ac yn oren. Ffoniais i'r heddlu.
[Merch yn ardal Llangollen]

Dw i wedi gweld UFO mawr iawn yn yr awyr. Roedd yr adenydd yn hir iawn, iawn.
[Dyn yng Nghaerdydd]

Geirfa

dangos	(to) show	ardal	area
glanio	(to) land	yr awyr	the sky
nid	not	heddlu	police
hyd heddiw	to this day	adenydd	wings
amgueddfa	museum		

1. Beth ydych chi'n meddwl? Ticiwch yr ateb cywir isod.

a. Dw i'n meddwl bod _____ wedi glanio yn Roswell.

UFO balŵn tywydd rhywbeth arall

b. Dw i'n meddwl bod UFOs ...

yn ffantasi yn bosib yn real iawn


c. Dw i'n meddwl bod aliwns yn ...

ddynion bach gwyrdd ffantasi rhywbeth arall

ch. Dw i ...

wedi gweld UFO ddim wedi gweld UFO

2. Ydych chi'n credu mewn UFOs?
Ysgrifennwch ateb i'r cwestiwn yma.
Rhowch resymau dros eich ateb.



3. Trafodwch y cwestiynau mewn grŵp.

4. Faint o'r dosbarth sy'n credu mewn UFOs ac aliwns?

5. Ysgrifennwch stori am UFO yn glanio yng Nghymru.

NEU

Chwiliwch am hanes UFO yng Nghymru ac ysgrifennwch yr hanes.

Cofiwch: i ysgrifennu stori neu hanes, rhaid i chi ysgrifennu yn yr amser gorfffenol (past tense):

-ais i – I did something

-odd e / o / hi – it did something

Gwelais i long ofod yn yr awyr. – I saw a spaceship in the sky.

Glaniodd y llong ofod ar y ffordd. – The spaceship landed on the road.

Hefyd: defnyddiwch **roedd** a **roeddwn i**.

Roedd hi'n dywyll. – It was dark.

Roeddwn i'n cerdded i lawr y ffordd. – I was walking down the road.

